**RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2024.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllediad o'r gweithgareddau].***

**Presennol** Cynghorydd Ken Taylor (Cadeirydd)
Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Geraint Bebb, Jeff M Evans, Neville Evans, T Ll Hughes MBE, John Ifan Jones, R Ll Jones, Dafydd Roberts , Alwen Pennant Watkin, Robin Williams a Liz Wood

Cynghorydd Nicola Roberts – Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd.

**Ymddiheuriadau** Cynghorydd Jackie Lewis

**Hefyd yn Bresennol:** Aelodau Lleol: Cynghorwyr Margaret M Roberts (cais 7.1 a 12.2); Ieuan Williams (cais 7.1).

Cynghorwyr Aled M Jones, Derek Owen

1.00 o'r gloch yp – 3.40 o'r gloch yp

Gan fod rhifyn 12 o Bolisi Cynllunio Cymru wedi'i gyhoeddi rhwng cyhoeddi'r agenda a chynnal y cyfarfod bydd Swyddogion yn adolygu penderfyniadau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio a'r newidiadau perthnasol i'r polisi cenedlaethol a effeithir gan y Polisi newydd (os o gwbl) cyn i'r penderfyniadau yna gael eu rhyddhau.

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 DATGANIAD O DDIDDORDEB** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Bu'r Cynghorydd John I Jones ddatgan diddordeb personol a oedd yn rhagfarnu yn eitem 7.1 – Fferm Tŷ Coch, Rhostrehwfa. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 10 Ionawr, 2024 a chadarnhawyd eu bod yn gywir. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIAD SAFLEOEDD** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cadarnhawyd cofnodion yr ymweliadau safle a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2024 fel cofnod cywir. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 SIARAD CYHOEDDUS** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cafwyd Siaradwyr cyhoeddus mewn perthynas â cheisiadau 7.1, 7.2, 12.2 a 12.4. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **6.1 FPL/2023/61 – Cais llawn ar gyfer newydd defnydd tir amaethyddol i fod yn safle cabanau gwyliau er mwyn lleoli 13 o gabanau gwyliau, adeiladu ffordd newydd ar y safle, addasiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau ynghyd â gwaith tirlunio meddal a chaled ar tir yn Taldrwst, Lôn Fain, Dwyran**<br><br>**Penderfynwyd gohirio'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU'N CODI** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **7.1 FPL/2023/146 – Cais llawn ar gyfer dymchwel yr annedd bresennol a codi annedd newydd ynghyd a gwaith cysylltiedig yn Cae Graham , Pentraeth.**<br><br>**Penderfynwyd gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Swyddog gan yr ystyriwyd y bydda'r datblygiad wedi cael effaith negyddol ar y polisi Cynllunio awyr dywyll a bod y datblygiad arfaethedig yn rhy fawr ar gyfer ôl troed yr annedd presennol.**<br><br>***(Yn unol â'r gofyniad yng nghyfansoddiad y Cyngor, cafodd y cais ei ohirio'n awtomatig tan y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i'r Swyddogion baratoi adroddiad ar y rhesymau a roddwyd dros wrthod y cais).***<br><br>**7.2 FPL/2023/227 – Cais llawn i ddymchwel yr annedd presennol ynghyd â chodi annedd newydd, ynghyd ag addasu y fynedfa** |

| | |
|---|---|
| | **bresennol, gosod system trin carthffosiaeth, a gwaith cysylltiedig yn Tŷ Coch Farm, Rhostrehwfa,**<br><br>**Penderfynwyd gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
| PENDERFYNIAD | **Ni ystyriwyd dim yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY** |
| PENDERFYNIAD | **Ni ystyriwyd dim yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | **Ni ystyriwyd dim yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR NEU SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | **Ni ystyriwyd dim yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
| PENDERFYNIAD | **12.1 FPL/2023/349 – Cais llawn ar gyfer canopi annibynnol gyda tho drosodd ynghyd â lloches beic yn Ysgol Syr Thomas Jones, Ffordd Tanybryn, Amlwch.**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.**<br><br>**12.2 FPL/2023/343 – Cais ôl-weithredol ar gyfer yr estyniad i'r decin presennol ym Mharc Carafanau Golden Sunset, Benllech**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog ac yn** |

| | |
|---|---|
| | **amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.**<br><br>**12.3 FPL/2023/176 – Cais llawn i ddymchwel 2 adeilad allanol ynghyd â chodi 2 annedd fforddiadwy , 4 annedd marchnad agored ynghyd â chreu mynedfa gerbydau ar dir tu ôl i'r Swyddfa Post, Ffordd Caergybi, Gwalchmai.**<br><br>**Penderfynwyd cynnal ymweliad safle yn unol â chais yr Aelod Lleol a hynny am y rhesymau a roddwyd.**<br><br>**12.4 VAR/2023/67 – Cais o dan Adran 73 ar gyfer amrywio amod (02) (i ganiatáu mân ddiwygiadau i gynllun, dyluniad a chynnydd yn uchder yr unedau cymeradwy) cyfeirnod caniatâd cynllunio FPL/2021/266 (Cais llawn ar gyfer codi 8 fflat preswyl fforddiadwy, adeiladu mynedfa gerbydau newydd, adeiladu ffordd newydd ar y safle ynghyd â thirlunio meddal a chaled) er mwyn caniatáu mân ddiwygiadau i gynllun, dyluniad a chynnydd yn uchder yr unedau cymeradwy ar dir yn Lôn Garreglwyd, Caergybi.**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
| PENDERFYNIAD | **Ni ystyriwyd dim yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |